# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 30.06.08

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr W.Tudor Owen (Cadeirydd); J.R.Jones; Ieuan Roberts
**Hefyd yn bresennol:** Gareth W Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol);Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Robert Anderson

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ar gyfer cais Patrick's Bar:**
**Ymgeisydd:** Mr Patrick S. Barry; Mr Tudur Owen (Cyfreithiwr ar ran Mr Barry)

**Gwrthwynebwyr:** Cyng. Kathleen Thomas (yn cynrychioli Cyngor Dinas Bangor);

**Aelodau Lleol:** Cynghorwyr June Marshall a Keith Marshall

## 1. CAIS AM WYRO TRWYDDED EIDDO AR GYFER PATRICK'S BAR, FFORDD CAERGYBI, BANGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan berchennog Patrick's Bar, Ffordd Caergybi, Bangor, i ymestyn oriau y drwydded wreiddiol i gynnwys caniatau cerddoriaeth fyw hyd at 00.00 bob dydd, cerddoriaeth wedi ei recordio hyd at 01.00 bob dydd ac i ganiatau gwerthu alcohol hyd at 02.30 gyda'r eiddo ar agor hyd at 03.00 bob dydd.

Cyfeiriwyd at lythyr yr heddlu yn datgan iddynt ddod i gytundeb â'r ymgeisydd ynghylch oriau diwygiedig, ond deallwyd nad yw'r gwrthwynebwyr yn fodlon gyda'r oriau agor na'r oriau gwerthu alcohol i'r cyhoedd. Trafodwyd y posibilrwydd o osgoi'r holl broses o gyflwyno cais newydd gyda chyn lleied o fanylion gwahanol, ac awgrymwyd gohirio'r cais tra bod hysbysiadau newydd yn cael eu harddangos ar yr eiddo am y cyfnod statudol, sef tair wythnos. Cytunwyd na fyddai angen rhoi hysbysiad yn y wasg, gan nad oes manylion newydd i'w hychwanegu.

Cyfeiriodd cyfreithiwr yr ymgeisydd at sylw a wnaethpwyd gan wrthwynebwyr am gartref henoed sydd yn agos at y dafarn, a gofynnwyd am gadarnhad o statws yr adeilad hwnnw cyn trafod y cais ymhellach.

**PENDERFYNWYD gohirio'r cais i wyro trwydded Patrick's Bar, Bangor hyd at ddiwedd y cyfnod statudol i arddangos hysbysiadau am oriau diwygiedig.**

## 2. CAIS AM DRWYDDED EIDDO AR GYFER Y SPORTSMAN'S ARMS, STRYD AMBROSE, BANGOR

**Eraill a wahoddwyd i'r cyfarfod:**

**Ar gyfer cais Sportsman's Arms:** Mr Keith Jones (Ymgeisydd)

**Aelod Lleol:** Cyng. Jean Forsyth

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan berchennog y Sportsman's Arms, Bangor, i ymestyn oriau y drwydded wreiddiol i gynnwys caniatau cerddoriaeth fyw hyd at 01.00 bob dydd, cerddoriaeth wedi ei recordio hyd at 02.00 bob dydd ac i ganiatau gwerthu bwyd poeth ac alcohol hyd at 02.30 gyda'r eiddo ar agor hyd at 03.00 bob dydd.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais

Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Tynnwyd sylw at baragraff E yn y cais, sef y paragraff sy'n nodi cerddoriaeth fyw, a'r ffaith bod y cais yn nodi 'none' ar gyfer nos Fercher, ond cadarnhawyd mai camgymeriad teipio oedd hwn, ac mai 0100 y dylai fod wedi ei nodi yn y bwlch.

Wrth ymhelaethu ar ei gais, nododd yr ymgeisydd mai dim ond ers dechrau Mai y bu yn berchen ar y dafarn, a'i fod yn newydd i'r gwaith ac felly'n gwerthfawrogi unrhyw arweiniad allai'r Is-bwyllgor ei gynnig. Nid oes bwriad i fod ar agor yn hwyr y nos ac eithrio ar achlysuron arbennig, a nod y perchennog a'i wraig yw rhedeg tafarn leol sydd ddim yn denu cwsmeriaid swnllyd a thrafferthus.

Tynnwyd sylw at baragraff P o'r cais lle mae cyfle i'r ymgeisydd nodi unrhyw gamau ychwanegol i gadw at egwyddorion y Ddeddf Drwyddedu 2003 ac atgoffwyd yr ymgeisydd ei fod ynghlwm i amodau y Drwydded Eiddo bresennol.

Yr oedd yr aelod lleol yn bresennol yn y cyfarfod, sydd hefyd yn aelod o Gyngor Dinas Bangor, ond nid oedd am roi sylwadau ar ran Cyngor y Ddinas oherwydd iddi ddatgan buddiant yng nghyfarfod y Cyngor hwnnw. Er hynny, ystyriwyd sylwadau a gyflwynwyd mewn llythyr ar ran Cyngor y Ddinas wrth drafod y cais. Adroddodd er hynny nad oedd ganddi wrthwynebiad i'r cais oherwydd na dderbyniodd unrhyw gwyn yn deillio o'r eiddo ers i'r perchenogion newydd gychwyn ar y fenter ddechrau fis Mai eleni.

Gadawodd yr ymgeisydd, y Rheolwr Trwyddedu ac aelodau o'r cyhoedd y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried y pedwar egwyddor o fewn y Ddeddf Drwyddedu 2005 sef:

1. Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
2. Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
3. Diogelwch y Cyhoedd
4. Amddiffyn Plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro Trwydded Eiddo'r Sportsmans Arms dan yr amodau canlynol:**

**a) caniatau cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi ei recordio Dydd Sul tan Dydd Iau o 23.00 hyd at 00.00; Dydd Gwener a Dydd Sadwrn o 23.00 hyd at 01.00; Noswyl Nadolig, Nos Calan a Nos Sul Gwyl y Banc o 23.00 hyd at 01.00**

**b) caniatau gwerthu bwyd poeth fel a ganlyn: Dydd Sul tan Dydd Iau o 23.00 hyd at 00.00; Dydd Gwener a Dydd Sadwrn o 23.00 hyd at 01.00; Noswyl Nadolig, Nos Calan a Nos Sul Gwyl y Banc o 23.00 hyd at 01.00**

**c) caniatau gwerthu alcohol fel a ganlyn: tu mewn - Dydd Sul tan Dydd Iau o 11.00 hyd at 01.00; Dydd Gwener a Dydd Sadwrn o 11.00 hyd at 01.30; Noswyl Nadolig a Nos Sul Gwyl y Banc o 11.00 hyd at 01.30; Nos Calan o 11.00 hyd at 02.30. Ar gyfer mynd ag alcohol allan: o 11.00 hyd at 00.00 pob dydd o'r wythnos.**
**d) Oriau ar agor i'r cyhoedd: Dydd Sul tan Dydd Iau 11.00 hyd at 01.30; Dydd Gwener a Dydd Sadwrn o 11.00 hyd at 02.00; Noswyl Nadolig a Dydd Sul Gwyl y Banc o 11.00 hyd at 02.00; Nos Calan o 11.00 hyd at 03.00.**
**e) Amodau safonol y Gwasanaeth Tân**
**f) Gweddill amodau'r drwydded wreiddiol i gydymffurfio ag egwyddorion y Ddeddf.**

Adroddwyd y byddai llythyr yn cael ei ddosbarthu o fewn yr wythnos i hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor a nodi'r amodau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.45am a daeth i ben am 12.00